# Arolygiad Practis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

Practis Deintyddol Hillcrest /

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Dyddiad yr arolygiad: 21 Mehefin 2017

Dyddiad cyhoeddi: 27 Medi 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Y Rheolwr Cyfathrebu**

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**

**Parc Busnes Rhyd-y-car**

**Merthyr Tudful**

**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn:** **0300 062 8163**

**E-bost:** **hiw@wales.gsi.gov.uk**

**Ffacs:** **0300 062 8387**
**Gwefan:** **www.agic.org.uk**



ISBN Digidol 978-1-78859-358-8



© Hawlfraint y Goron 2017

# Cynnwys


1. Yr hyn a wnaethom ........................................................................................ 5

2. Crynodeb o'n harolygiad ............................................................................... 6

3. Yr hyn a ganfuom............................................................................................ 8

   Ansawdd profiad y claf ......................................................................................9

   Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol ...................................................................14

   Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth............................................................21

4. Beth nesaf?.................................................................................................... 23

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol...................................................... 24

   Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad ...........25

   Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith ............................................................26

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru**

# Ein diben

**Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.**

# Ein gwerthoedd

- **Pwyslais ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud**
- **Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest**
- **Annibynnol: rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn**
- **Cydweithredol: rydym yn datblygu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol**
- **Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chyfrannol.**

# Ein blaenoriaethau

**Ein nod trwy ein gwaith yw:**

| | |
|---|---|
| **Darparu sicrwydd:** | **Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.** |
| **Hybu gwelliant:** | **Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.** |
| **Dylanwadu ar bolisi a safonau:** | **Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.** |

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Hillcrest, 866 Heol Casnewydd, Tredelerch, Caerdydd, CF3 4LJ, o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, ar 21 Mehefin 2017.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys rheolwr arolygu AGIC (arweinydd yr arolygiad) ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd y gwasanaeth yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Gellir gweld manylion pellach ynglŷn â'n dull o gynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod Practis Deintyddol Hillcrest yn darparu gofal diogel ac effeithiol ar gyfer ei gleifion mewn amgylchedd dymunol, gyda staff sy'n gyfeillgar, yn broffesiynol ac yn ymroddedig. Fodd bynnag, canfuom rywfaint o dystiolaeth nad oedd y practis yn cydymffurfio'n llwyr â'r holl Safonau Iechyd a Gofal ym mhob maes.

Canfuom fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y cleifion yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a oedd yn cael ei ddarparu.
- Roedd y tîm staff yn gyfeillgar, yn groesawgar ac yn ymroddedig i ddarparu gofal o safon uchel.
- Roedd digon o gyfleusterau clinigol ac roeddent yn lân.
- Roedd offer deintyddol yn cael eu glanhau a'u sterileiddio’n briodol.
- Roedd trefniadau ar waith ar gyfer defnyddio sganiau pelydr-X yn ddiogel.

Gwnaethom argymell y gallai'r gwasanaeth wella’r canlynol:

- Dylid darparu gwybodaeth mewn iaith a diwyg sy'n diwallu anghenion y cleifion.
- Dylid llunio polisi cwynion ar gyfer cleifion y GIG a chleifion preifat, a'i ddangos mewn safle amlwg, a darparu hyfforddiant ymdrin â chŵynion.
- Dylid cynnal gwasanaeth gwifrio trydanol bob pum mlynedd, a chael tystysgrif ar gyfer dyfeisiau nwy.
- Dylid adolygu'r asesiad risg amgylcheddol er mwyn ystyried arwyddion tân, peryglon baglu, mynediad at fannau staff, a threfniadau storio sylweddau peryglus i iechyd.
- Mae angen sinc golchi â llaw a threfniad sinc ddwbl yn yr ystafell ddadheintio.

- Roedd angen gwirio statws brechiadau imiwneiddio un deintydd a rhoi dos atgyfnerthu.
- Mae disgwyl i staff perthnasol gwblhau hyfforddiant dadheintio.
- Mae angen gwneud rhywfaint o waith i adfer cabinetau ac addurniadau yn yr ystafell driniaeth i lawr y grisiau, ac adolygu'r amserlen lanhau yn yr ardal hon.
- Roedd angen hyfforddiant amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed ar bum aelod o staff.
- Mae'n rhaid cofnodi nodiadau cleifion yn unol â chanllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.
- Mae angen adnewyddu gwiriadau diogelu'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer dau ddeintydd.

# 3. Yr hyn a ganfuom

## Cefndir y gwasanaeth

Mae Practis Deintyddol Hillcrest yn darparu gwasanaethau ar gyfer cleifion yn ardal Caerdydd a'r cylch. Mae’r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal sy'n cael ei gwasanaethu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro.

Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy’n cynnwys pedwar deintydd, pum nyrs ddeintyddol, un nyrs ddeintyddol dan hyfforddiant, dau hylenydd, dau dderbynnydd, ac un rheolwr practis.

Mae’r practis yn darparu arlwy o wasanaethau deintyddol y GIG a gwasanaethau deintyddol cyffredinol preifat.

## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Ar y cyfan, canfuom fod Practis Deintyddol Hillcrest yn gweithio'n galed i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel ac yn ymrwymedig i ddarparu profiad cadarnhaol ar gyfer ei gleifion. Roedd yr adborth a gafwyd trwy ein holiaduron cleifion yn gadarnhaol.

Fodd bynnag, dylid darparu gwybodaeth mewn iaith a diwyg sy'n diwallu anghenion y cleifion. Rhaid adolygu a/neu ddatblygu polisïau cwynion a'u dangos yn amlwg. Mae angen hyfforddiant ymdrin â chŵynion ar un aelod o staff.

Yn ystod ein harolygiad, gwnaethom ddosbarthu holiaduron AGIC ymhlith cleifion er mwyn casglu eu safbwyntiau am y gwasanaeth a oedd yn cael ei ddarparu yn y practis. Gwnaethom dderbyn cyfanswm o 20 o holiaduron wedi'u cwblhau. Cafodd y rhan fwyaf o'r holiaduron eu cwblhau gan gleifion a oedd wedi bod gyda'r practis ers dros ddwy flynedd. Ar y cyfan, roedd adborth y cleifion yn gadarnhaol. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

> "*Gwasanaeth da, dim angen ei wella."*
>
> *"Rwy'n fodlon iawn ar y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu."*
>
> "*Gwasanaeth ardderchog. Mae staff y rheng flaen yn gymwynasgar iawn, ac mae'r deintydd yn dda iawn."*

Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiaduron sut y gallai'r practis deintyddol wella'r gwasanaeth a ddarperir ganddo, a'r unig ddau welliant awgrymedig oedd:

> "*Negeseuon testun i'ch atgoffa am apwyntiadau."*
>
> "*Mae angen ailaddurno'r lle."*

## Cadw’n iach

Ar wahân i ambell glaf, dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur wrthym fod y tîm deintyddol wedi siarad â nhw ynghylch sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach. Mae gwybodaeth hybu iechyd yn cynorthwyo cleifion i fod yn gyfrifol am eu hiechyd a'u llesiant eu hunain. Roedd digonedd o wybodaeth hybu iechyd deintyddol benodol ar gael. Roedd hyn yn golygu bod gan gleifion fynediad at wybodaeth a allai fod o gymorth iddynt wrth ofalu am eu hylendid ceg eu hunain, gan gynnwys siartiau troi a thaflenni gwybodaeth wedi'u harddangos yn y man aros.

## Gofal ag urddas

Cadarnhaodd pob claf a gwblhaodd holiadur wrthym ei fod wedi'i drin â pharch wrth ymweld â'r practis a'i fod wedi'i groesawu gan dîm y practis. Gwelsom y dull cynnes, cyfeillgar a phroffesiynol roedd y staff yn ei ddefnyddio wrth ymdrin â chleifion.

Roedd lle ar gael i staff gael sgyrsiau â chleifion mewn man preifat i ffwrdd o gleifion eraill, pe bai angen, er mwyn cynnal cyfrinachedd cleifion. Gwelsom fod y drysau i'r ystafelloedd triniaeth ddeintyddol (lle'r oedd cleifion yn derbyn gofal ar ddiwrnod ein harolygiad) wedi'u cadw ar gau i gynnal preifatrwydd ac urddas.

### Gwybodaeth i gleifion

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys gymaint ag y dymunant mewn unrhyw benderfyniadau a wneir am eu triniaeth, a bod y tîm deintyddol yn eu helpu i ddeall yr holl opsiynau sydd ar gael pan fo angen triniaeth arnynt. Cadarnhaodd cleifion a gwblhaodd holiadur y gwneir cost eu triniaeth bob amser yn amlwg iddynt cyn iddynt dderbyn y driniaeth, gyda llai na chwarter o'r cleifion yn dweud wrthym nad oeddent yn deall sut yr oedd cost eu triniaeth yn cael ei chyfrifo.

Gwelsom fod gwybodaeth am brisiau triniaeth y GIG a thriniaeth breifat ar gael yn y man aros, er mwyn i gleifion gael eu hysbysu am gostau. Mae'r practis yn darparu gwybodaeth am y practis ar gyfer y cleifion, ac mae'r wybodaeth hon ar gael yn y man aros. Gwelsom fod manylion y deintyddion sy'n ymarfer yn y practis ac oriau agor y practis yn cael eu harddangos y tu allan i'r adeilad.

Roedd gwybodaeth am gleifion yn cael ei storio'n ddiogel.

### Cyfathrebu'n effeithiol

Nid oedd yr un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn ei ystyried ei hun yn siaradwr Cymraeg, felly nid oedd yn bosibl darganfod pa mor aml roedd cleifion wedi llwyddo i siarad Cymraeg â staff. Fodd bynnag, nododd y rhan fwyaf o'r cleifion yn yr holiadur eu bod yn gallu siarad â staff yn eu hiaith ddewisol bob amser.

Dylai'r practis wella ei wybodaeth a'i gyfathrebiadau dwyieithog lle bo angen. Rhaid i'r practis sicrhau bod trefniad ffurfiol ar waith i gael mynediad at wasanaethau cyfieithu ar y pryd. Rhaid cynnig gwasanaethau cyfieithu ar y pryd i gleifion y gallent fod eu hangen. Er enghraifft, dylai dogfennau allweddol megis y polisïau cwyno fod ar gael yn Gymraeg.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei darparu mewn iaith a fformat sy'n diwallu anghenion y cleifion, gan gynnwys y rhai hynny sy'n siarad Cymraeg.

## Gofal amserol

Mae'r practis yn ceisio sicrhau bod gofal deintyddol bob amser yn cael ei ddarparu mewn da bryd. Roedd polisi oedi afraid ar waith a dywedwyd wrthym fod derbynyddion yn hysbysu'r cleifion am y rhesymau dros unrhyw oedi afraid. Dywedodd ychydig dros chwarter o'r cleifion a gwblhaodd holiadur na fyddent yn gwybod sut i gael mynediad at y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai problem ddeintyddol ar frys ganddynt. Gwelsom fod manylion y rhif ffôn cyswllt mewn argyfwng yn cael eu harddangos y tu allan i'r adeilad.

## Gofal unigol

### Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Dywedodd bron y cleifion i gyd a gwblhaodd holiadur fod y deintydd yn holi am eu hanes meddygol cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth. Gwelsom dystiolaeth bod y cleifion yn cael eu hysbysu a'u hannog i ofalu am eu dannedd/deintgig ar ôl a rhwng apwyntiadau.

### Hawliau pobl

Roedd gan y practis bolisi cydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith. Mae mynediad gwastad at un o'r ystafelloedd triniaeth ar y llawr daear, sy'n hygyrch i gleifion ag anawsterau symudedd. Mae modd i ddefnyddwyr cadair olwyn fynd

i'r llawr daear yn y practis gyda chymorth gan y staff ac mae ganddynt fynediad at y dderbynfa, y man aros a'r ystafell driniaeth ar y llawr daear.

## Gwrando a dysgu o adborth

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym y gofynnir iddynt am eu safbwyntiau am y practis deintyddol – er enghraifft, trwy holiaduron i gleifion.

Nododd mwy na thri chwarter o'r cleifion a gwblhaodd holiadur na fyddent yn gwybod sut i leisio pryder neu gwyno am y gwasanaethau maent yn eu derbyn yn y practis deintyddol.

Gwelsom fod gan y practis weithdrefn ysgrifenedig ar gyfer ymdrin â phryderon (cwynion) am driniaeth ddeintyddol y GIG. Fodd bynnag, mae angen adolygu'r weithdrefn gwyno hon i sicrhau ei bod yn cydymffurfio â'r trefniadau ar gyfer lleisio pryderon am driniaeth y GIG (a adwaenir fel 'Gweithio i Wella'),[1] h.y. dylai gynnwys manylion cyswllt yr ombwdsmon a chael ei harddangos mewn man amlwg.

Nid oedd gwybodaeth ar wahân ar gael ar gyfer gweithdrefnau cwyno cleifion preifat. Rhaid datblygu hon yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008[2] a rhaid i'r wybodaeth gynnwys cyfeiriad a rhif ffôn cyswllt AGIC. Ar ôl adolygu a datblygu'r gweithdrefnau cwyno hyn, rhaid sicrhau eu bod ar gael mewn man amlwg yn yr ardaloedd aros, er mwyn i'r cleifion allu cael mynediad rhwydd at y wybodaeth hon, pe bai angen.

Ychydig o gŵynion gan gleifion a oedd wedi cael eu derbyn dros y blynyddoedd diweddar, ac roedd ffeil cwynion yn cael ei chadw. Awgrymwyd bod y practis yn rhoi cofnod pryderon ar waith i gofnodi pryderon anffurfiol yn ganolog i alluogi unrhyw themâu cyffredin i gael eu nodi. Rheolwr y practis oedd yr unigolyn cwynion penodedig, ac felly mae disgwyl iddo ymgymryd â hyfforddiant ymdrin â chŵynion.

---

[1] http://www.wales.nhs.uk/sites3/page.cfm?orgid=932&pid=50738

[2] https://www.dentalprotection.org/uk/help-advice/regulations/wales/private-dentistry-(wales)-regulations-2008

### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis adolygu polisi cwynion y GIG a datblygu polisi cwynion preifat ar gyfer cleifion preifat yn unol â Gweithio i Wella a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 yn ôl eu trefn. Rhaid arddangos y dogfennau hyn yn amlwg yn y mannau aros i gleifion.

Mae disgwyl i reolwr y practis, fel yr unigolyn cwynion penodedig, ymgymryd â hyfforddiant ymdrin â chŵynion.

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Ar y cyfan, canfuom dystiolaeth bod y practis yn darparu gofal deintyddol diogel ac effeithiol i gleifion. Roedd y cyfleusterau clinigol wedi cael eu cyfarparu'n dda ac roeddent i'w gweld yn lân ac yn daclus. Roeddem yn fodlon ar y trefniadau oedd ar waith er mwyn amddiffyn cleifion a staff rhag heintiau ataliadwy sy'n gysylltiedig â gofal iechyd.

Canfuom fod y practis wedi cymryd camau i helpu i ddiogelu iechyd, diogelwch a llesiant y staff a'r cleifion.

Roedd cyfarpar dadebru a chyffuriau brys ar gael yn y practis, ac roedd systemau ar waith i helpu i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio.

Roedd trefniadau ar waith i sicrhau bod offer pelydr-X yn cael eu defnyddio mewn modd diogel. Roedd y practis wedi cymryd camau i hyrwyddo ac i ddiogelu lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n dod yn agored i niwed neu sydd mewn perygl.

Fodd bynnag, mae angen tystysgrif gwifrio trydanol bob pum mlynedd a thystysgrif ar gyfer dyfeisiau nwy. Rhaid adolygu'r asesiad risg amgylcheddol a chymryd camau er mwyn mynd i'r afael â'r problemau penodol a nodwyd yn yr adroddiad. Mae angen sinc golchi â llaw a threfniad sinc ddwbl yn yr ystafell ddadheintio. Roedd angen ystyried statws brechiadau imiwneiddio un deintydd mewn perthynas â rhoi dos atgyfnerthu iddo. Mae disgwyl i staff perthnasol gwblhau hyfforddiant diweddaru mewn perthynas â dadheintio. Mae angen addurno'r ystafell driniaeth i lawr y grisiau a chynnal gwaith adfer ar rai o'r cabinetau, ac mae angen adolygu'r amserlen lanhau. Mae angen trefnu hyfforddiant diogelu ar gyfer pum aelod o staff.

Mae angen gwella ac archwilio'r arferion cadw cofnodion.

## Gofal diogel

### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Canfuom fod y practis wedi cymryd camau i helpu i ddiogelu iechyd, diogelwch a llesiant y staff a'r cleifion. Gwelsom fod profion dyfeisiau cludadwy wedi'u cynnal i helpu i sicrhau bod dyfeisiau trydanol bach yn cael eu defnyddio'n ddiogel yn y practis. Fodd bynnag, mae angen tystysgrif gwifrio trydanol bob pum mlynedd ar gyfer yr adeilad fel tystiolaeth, ac mae angen tystysgrif nwy gyfredol hefyd.

Roedd tri thoiled neillryw i'w defnyddio gan y cleifion; roedd un ohonynt yn hygyrch ar y llawr daear, ac roedd y ddau arall ar y llawr cyntaf. Roedd toiled ar wahân ar gael i'r staff. Roedd arwyddion clir at y cyfleusterau hyn, ac roeddent i'w gweld yn lân, gyda biniau gwastraff glanweithiol ar waith.

Roedd asesiadau risg ar gyfer y Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd a thaflenni data diogelwch yn cael eu cadw ar gyfer sylweddau yn ogystal ag asesiadau risg. Mae angen storio sylweddau peryglus i iechyd yn ddiogel ar bob amser. Mae angen ystyried mynediad at fannau i'r staff yn unig, a dylid rhoi arwyddion 'staff yn unig' ar waith.

Roedd diffoddwyr tân ar gael ac roeddent wedi cael eu gwasanaethu o fewn y 12 mis diwethaf. Roedd contract cynnal a chadw ar waith ar gyfer offer diogelwch tân, ac roedd asesiadau risg tân yn amlwg. Roedd arwyddion tân ar gael yn y rhan fwyaf o fannau, ond mae angen rhoi ystyriaeth bellach iddynt. Roedd polisi iechyd a diogelwch ar waith. Cafodd risg baglu bosibl ei nodi wrth drothwy'r ystafell i lawr y grisiau a ddefnyddir i siarad â chleifion pe bai angen cynnal sgwrs breifat. Dylai'r cyfarpar deintyddol yn y cwpwrdd gwyn ar y ffordd i'r toiled i lawr y grisiau gael ei ddiogelu fel nad yw'n hygyrch i gleifion. Rhaid i'r practis adolygu ei asesiad risg amgylcheddol, i fynd i'r afael â'r mân broblemau a nodwyd.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen tystiolaeth o dystysgrif gwifrio trydanol bob pum mlynedd ar gyfer yr adeilad ac mae'n rhaid anfon copi at AGIC.

Mae angen tystysgrif nwy gyfredol, ac mae angen anfon copi ohoni at AGIC.

Rhaid i'r practis adolygu ei asesiadau risg amgylcheddol er mwyn ystyried a chymryd camau mewn perthynas â threfniadau storio sylweddau peryglus i iechyd, anghenion o ran arwyddion tân, peryglon baglu, arwyddion mynediad staff yn unig, a mynediad at gyfarpar deintyddol.

## Atal a rheoli heintiau

Ni chodwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y practis deintyddol; roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo bod y practis deintyddol, yn eu barn nhw, naill ai'n lân iawn neu'n weddol lân. Roeddem yn fodlon ar y trefniadau ar gyfer amddiffyn staff a chleifion rhag heintiau ataliadwy sy'n gysylltiedig â gofal iechyd yn y practis deintyddol. Mae hyn am i ni weld tystiolaeth bod mesurau atal a rheoli heintiau ar waith. Roedd enghreifftiau'n cynnwys y canlynol:

- Ystafell bwrpasol ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol
- Roedd cyfarpar diogelu personol, megis menig tafladwy, ffedogau a chyfarpar diogelu llygaid, ar gael ac yn cael ei ddefnyddio
- Roedd y cyfarpar a oedd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer glanhau a sterileiddio'r offer mewn cyflwr da yn ôl pob golwg
- Roedd offer yn cael eu storio a'u cludo mewn modd priodol, ac roedd dyddiad ar eu pecynnau i ddangos erbyn pryd roedd yn rhaid eu defnyddio

Roedd polisi dadheintio ar waith a gwelsom dystiolaeth bod y staff yn llofnodi ac yn dyddio i ddangos eu bod wedi ystyried y prif bolisïau. Fodd bynnag, mae angen sinc golchi â llaw a threfniad sinc ddwbl yn yr ystafell ddadheintio.

Canfuom dystiolaeth bod gwiriadau o ran statws brechiadau imiwneiddio aelodau staff ar gael. Fodd bynnag, roedd angen ystyried statws brechiadau imiwneiddio un deintydd mewn perthynas â rhoi dos atgyfnerthu iddo.

Roedd y practis wedi cynnal archwiliad rheoli heintiau fel yr argymhellir gan ganllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.[3] Canfuom nad oedd tystiolaeth bod yr holl staff perthnasol wedi cwblhau hyfforddiant dadheintio o fewn cylchred eu datblygiad proffesiynol parhaus. Nododd y prif ddeintydd fod gwaith addurno ac adfer y cabinetau yn yr ystafell driniaeth ar y llawr daear wrthi'n cael ei gynllunio. Mae angen dyddiad ar gyfer y gwaith hwn ac mae angen cynnal adolygiad o'r amserlen lanhau yn yr ystafell driniaeth hon. Roedd dogfennau contract ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus. Roedd cynwysyddion offer miniog yn cael eu storio'n ddiogel.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen sinc golchi â llaw a threfniad sinc ddwbl yn yr ystafell ddadheintio.

Roedd angen ystyried statws brechiadau imiwneiddio un deintydd mewn perthynas â rhoi dos atgyfnerthu iddo.

Mae disgwyl i staff perthnasol gwblhau hyfforddiant dadheintio.

Mae angen addurno'r ystafell driniaeth i lawr y grisiau a chynnal gwaith adfer ar rai o'r cabinetau, ac mae angen adolygu'r amserlen lanhau.

## Rheoli meddyginiaethau

Roedd gweithdrefnau ar waith yn y practis a oedd yn dangos sut i ymateb i argyfyngau meddygol cleifion ac roedd y rhain wedi'u harddangos yn yr holl fannau perthnasol. Roedd yr holl staff clinigol wedi derbyn hyfforddiant dadebru cardio-pwlmonaidd cyfredol. Roedd y cyffuriau a ddefnyddir mewn argyfwng yn cael eu cadw'n ddiogel, ac roeddent ar gael ar unwaith pe bai argyfwng meddygol (claf yn llewygu) yn y practis. Gwelsom dystiolaeth bod system effeithiol ar waith i wirio'r cyfarpar a'r cyffuriau brys i sicrhau bod eu dyddiadau

[3] http://www.wales.nhs.uk/sites3/docopen.cfm?orgid=254&id=232444

dod i ben yn gyfredol a'u bod yn barod i'w defnyddio. Roedd polisi dadebru ar waith a oedd yn cynnwys lleoliad y cyfarpar, a swyddogaethau a chyfrifoldebau. Roedd swyddogion cymorth cyntaf penodol ar gael yn y practis a oedd wedi cael hyfforddiant.

### Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Roedd y practis wedi cymryd camau i hyrwyddo ac amddiffyn lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n agored i niwed a allai fod mewn perygl. Mae hyn oherwydd bod polisïau amddiffyn priodol ar waith, a bod hyfforddiant diogelu'n cael ei ddarparu ar gyfer staff perthnasol. Fodd bynnag, nid oedd tystiolaeth o hyfforddiant amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed ar gyfer pum aelod o staff. Rhaid i gofnodion hyfforddiant gael eu cynnal yn rheolaidd fel eu bod yn gyfredol ac yn manylu'n gywir cydymffurfiad staff unigol a thimau â gofynion hyfforddiant.

Roedd trefniadau ar waith i staff leisio unrhyw bryderon, a dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo y gallent wneud hyn mewn gwirionedd.

Yr hyn y mae angen ei wella

Nid oedd tystiolaeth o hyfforddiant amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed ar gyfer pum aelod o staff. Rhaid i gofnodion hyfforddiant gael eu cynnal yn rheolaidd fel eu bod yn gyfredol ac yn manylu'n gywir cydymffurfiad staff unigol a thimau â gofynion hyfforddiant.

### Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwnaethom edrych ar y cyfleusterau clinigol yn yr ystafelloedd triniaeth a chanfod eu bod yn cynnwys yr offer perthnasol ar gyfer diogelwch cleifion a'r tîm deintyddol. Gwnaethom sylwi bod yr ystafelloedd triniaeth wedi'u cynllunio a'u trefnu i helpu'r tîm i weithio'n effeithlon, ac roeddent yn amlwg yn lân iawn ac mewn cyflwr da.

Gwelsom fod yr amgylchedd wedi cael ei gynllunio a'i drefnu i sicrhau bod offer ymbelydredd yn cael eu defnyddio'n ddiogel. Roedd ffeil ymbelydredd ar gael

yn y practis, gyda'r wybodaeth allweddol mewn un man. Gwelsom ddogfennau a oedd yn dangos bod y peiriannau pelydr-X wedi cael eu gwasanaethu'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Canfuom fod staff a oedd yn cymryd rhan yn y gwaith o dynnu radiograffau wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol, yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.[4]

## Gofal effeithiol

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Mae cleifion yn elwa ar bractis sy'n ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Gwelsom fod y practis yn cynnal archwiliadau perthnasol, gan gynnwys archwiliadau rheoli heintiau ac archwiliadau radiograffig.

### Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Roedd polisi archwilio a pholisi adolygu cymheiriaid ar waith. Dywedodd y prif ddeintydd fod prosesau adolygu ansawdd cymheiriaid yn fewnol. Nododd y prif ddeintydd fod y practis wedi ymwneud ag archwiliad clinigol ac adolygiad cymheiriaid Deoniaeth Cymru ynghynt (CAPRO).[5]

### Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd ffeiliau cleifion yn cael eu storio mewn modd priodol er mwyn sicrhau diogelwch data personol. Roedd ffeiliau papur yn cael eu defnyddio yn y practis hwn. Roedd copïau wrth gefn o'r data electronig a oedd yn cael ei ddefnyddio'n cael eu cadw'n rheolaidd, ac roedd mynediad at sgriniau cyfrifiadur yn ddiogel a chynnil. Roedd polisi diogelu data ar waith.

### Cadw cofnodion

Gwnaethom ystyried sampl o gofnodion deintyddol cleifion er mwyn asesu ansawdd y cofnodion, ac ar y cyfan roeddent yn dda. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod angen gwella'r meysydd canlynol:

---

[4] http://www.legislation.gov.uk/uksi/2000/1059/pdfs/uksi_20001059_en.pdf

[5] https://dental.walesdeanery.org/improving-practice-quality/carro

- Mae angen cynnal cysondeb nodiadau'r cleifion, a chynnwys eu hanesion cymdeithasol a gwybodaeth am roi'r gorau i ysmygu/alcohol.

- Mae angen gwella cysondeb cofnodion sgrinio ar gyfer canser y geg.

- Mae angen cynnal cysondeb hanesion meddygol, ac mae angen i ddeintyddion eu cydlofnodi a'u diweddaru yn ystod pob cwrs o driniaeth.

- Mae angen diweddaru siartiau sylfaen llawn yn ystod pob cwrs o driniaeth, a'u llofnodi a'u dyddio.

- Mae angen cofnodi archwiliadau ceg mewnol ac allanol yn gyson ac yn llawn.

- Mae angen cofnodi a chyfiawnhau cyfnodau adalw.

Trafodwyd y canfyddiadau'n fanwl â'r prif ddeintydd a chytunwyd y byddai'n rhoi rhaglen adolygu gan gymheiriaid ar waith ar gyfer cofnodion cleifion er mwyn gwella ansawdd y gwaith cadw cofnodion ymhellach.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i ddeintyddion sicrhau eu bod yn mynd i'r afael â'r canfyddiadau penodol yn yr adroddiad sy'n ymwneud â chadw cofnodion ac mae'n rhaid iddynt wneud trefniadau priodol i sicrhau bod cofnodion deintyddol cleifion a gwblheir ganddynt yn cael eu cynnal yn unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion. Dylid ymgymryd ag archwiliad cadw cofnodion.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.*

Y prif ddeintydd oedd perchennog y practis. Roedd tri deintydd arall, a thîm staff cyfeillgar a oedd wedi ymgartrefu. Roedd rheolwr practis a oedd yn cynorthwyo â'r gwaith o reoli'r practis o ddydd i ddydd. Gwelsom fod arlwy o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith gyda'r nod o sicrhau diogelwch staff a chleifion.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan uwch-staff y practis a'u cydweithwyr, a'u bod yn cael cyfleoedd i fynychu hyfforddiant sy'n berthnasol i'w swyddi. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw'n ymroddedig i ddarparu gofal o ansawdd uchel i gleifion.

Mae angen gwiriadau diogelu cyfredol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer dau ddeintydd, yn unol â'r rheoliadau deintyddiaeth breifat.

### Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Y prif ddeintydd yw perchennog Practis Deintyddol Hillcrest, ac mae'n cael cymorth gan dri deintydd arall a'r tîm practis ehangach. Mae rheolwr practis i gynorthwyo â'r gwaith o reoli'r practis o ddydd i ddydd. Pan wnaethom nodi meysydd i'w gwella, dangosodd y prif ddeintydd a rheolwr y practis eu bod yn ymroddedig i fynd i'r afael â'r rhain yn gyflym.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael digon o gefnogaeth yn eu swyddi gan bob un o aelodau tîm y practis. Canfuom fod y staff yn eglur am eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau. Dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo bod cyfathrebu da ymhlith tîm y practis. Gwelsom gofnodion o gyfarfodydd practis a oedd wedi cael eu cynnal yn rheolaidd, a gwelsom fod camau gweithredu a chofnodion yn cael eu cadw.

Roedd arlwy o bolisïau a gweithdrefnau ar waith gyda'r nod o sicrhau diogelwch staff a chleifion.

## Staff ac adnoddau

### Y gweithlu

Gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod staff wedi cael hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau sy'n berthnasol i'w swyddi. Gwnaeth y staff gadarnhau hefyd eu bod yn cael eu cefnogi a'u hannog gan y tîm rheoli i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddi. Gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod yr holl staff clinigol wedi cwblhau hyfforddiant mewn meysydd y mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn eu hargymell yn fawr iawn.

Roedd gan y practis dîm staff cyson a sefydlog, a chafodd gwaith tîm da ei adrodd a'i weld ar ddiwrnod yr arolygiad. Gwelsom dystiolaeth bod y staff wedi derbyn arfarniad o'u perfformiad o fewn y flwyddyn ddiwethaf a bod cynlluniau datblygu personol wedi'u llunio o ganlyniad i'r arfarniadau hyn.

Canfuom fod deintyddion a staff nyrsio wedi'u cofrestru i ymarfer gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a bod yswiriant indemniad ar waith ganddynt.

Roedd cofnodion ar gael a oedd yn dangos bod y staff wedi derbyn brechiadau rhag Hepatitis B, i amddiffyn eu hunain a chleifion rhag heintiau.

Roedd y deintyddion a oedd yn gweithio yn y practis yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat, a gwelsom fod eu tystysgrifau cofrestru gydag AGIC wedi'u harddangos mewn lle amlwg, yn unol â'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat.

Roedd systemau ar waith i sicrhau bod gwiriadau cyn cyflogaeth unrhyw aelodau newydd o staff yn cael eu cynnal cyn iddynt ymuno â'r practis, gan gynnwys gwiriadau clirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Fodd bynnag, nid oedd gwiriadau diogelu'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn gyfredol ar gyfer dau ddeintydd, yn unol â'r rheoliadau deintyddiaeth breifat.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen gwiriadau diogelu cyfredol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer dau ddeintydd, yn unol â'r rheoliadau deintyddiaeth breifat. Rhaid darparu tystiolaeth o hyn ar gyfer AGIC.

# 4. Beth nesaf?

Mae'r gwelliannau a'r pryderon uniongyrchol rydym wedi eu nodi yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diogelwch cleifion lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith gan ddweud wrthym am y camau brys mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi derbyn sylw.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# 5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Mae arolygiadau deintyddol fel arfer yn rhai lle rhoddir rhybudd. Mae practisau deintyddol yn derbyn o leiaf deuddeg wythnos o rybudd ymlaen llaw ynglŷn ag arolygiad. Mae hyn er mwyn rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod y practis yn rhedeg yn unol â'r arfer, a bod yr arolygiad yn amharu ar gleifion cyn lleied ag y bo modd.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Rydym yn gwirio sut mae practisau deintyddol yn bodloni Safonau Iechyd a Gofal 2015. Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011. Lle y bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Mae'r arolygiadau hyn yn cofnodi cipolwg o'r safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir gwybodaeth bellach am sut mae AGIC yn arolygu practisau deintyddol a'r GIG ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod yr arolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen i'r pryderon hyn dderbyn sylw ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon a oedd angen sylw ar unwaith | Effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion | Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut y cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw bryderon a oedd angen sylw ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn. | | | |

## Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

## Gwasanaeth: Practis Deintyddol Hillcrest

## Dyddiad yr arolygiad: 21 Mehefin 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

| Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw broblemau sicrwydd ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn. | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb a'r atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (llythrennau bras):**

**Swydd:**

**Dyddiad:**

## Atodiad C – Cynllun gwella

## Gwasanaeth: Practis Deintyddol Hillcrest

## Dyddiad yr arolygiad: 21 Mehefin 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd profiad y claf** | | | | |
| Rhaid i'r practis sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei darparu mewn iaith a fformat sy'n diwallu anghenion y cleifion, gan gynnwys y rhai hynny sy'n siarad Cymraeg. | Safonau Iechyd a Gofal 4.2 a 6.3<br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>14 (1) (a) | Rydym wrthi'n arddangos posteri dwyieithog yn ein hystafell aros. Rydym wedi lawrlwytho ac arddangos y poster 'Gweithio i Wella' yn Gymraeg a Saesneg. Rydym wedi lawrlwytho'r taflenni 'Gweithio i Wella' yn Gymraeg a Saesneg. | Caroline Dirks | Cwblhawyd |
| Rhaid i'r practis adolygu polisi cwynion y GIG a datblygu polisi cwynion preifat ar gyfer cleifion preifat yn unol â Gweithio i Wella a Rheoliadau | Safon Iechyd a Gofal 6.3<br>Rheoliadau | Mae poster 'Gweithio i Wella' y GIG bellach yn cael ei arddangos. Bellach, mae polisi cwynion ar wahân ar gyfer | Caroline Dirks | Cwblhawyd |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 yn ôl eu trefn. Rhaid arddangos y dogfennau hyn yn amlwg yn y mannau aros i gleifion. | Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>15 (4) | triniaeth y GIG a thriniaeth breifat. Mae hysbysiad yn y dderbynfa sy'n egluro'r weithdrefn gwyno, gan gynnwys amserlenni a chyfeiriadau allanol (e.e. yr ombwdsmon). | | |
| Mae disgwyl i reolwr y practis, fel yr unigolyn cwynion penodedig, ymgymryd â hyfforddiant ymdrin â chŵynion. | Safon Iechyd a Gofal 6.3<br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>15 (3) | Ymgymerwyd â chwrs ar-lein gan Gymdeithas Ddeintyddol Prydain ar 18 Gorffennaf 2017. | Caroline Dirks | Cwblhawyd |
| **Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol** | | | | |
| Mae angen tystiolaeth o dystysgrif gwifrio trydanol bob pum mlynedd ar gyfer yr adeilad ac mae'n rhaid anfon copi at AGIC. | Safon Iechyd a Gofal 2.1<br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>14 (1) (d) | Trefnwyd i drydanwr gynnal y prawf gwifrio ar benwythnos 12/13 Awst 2017. Caiff copi ei anfon at AGIC. | Dr Ann Rockey<br>Caroline Dirks | 30 Medi 2017 |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Mae angen anfon copi o dystysgrif nwy gyfredol at AGIC. | Safon Iechyd a Gofal 2.1<br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>14 (1) (d) | Cwblhawyd y gwaith o wasanaethu'r nwy ar 30 Mehefin 2017. Anfonwyd tystysgrif at AGIC. | Caroline Dirks | Cwblhawyd |
| Rhaid i'r practis adolygu ei asesiadau risg amgylcheddol er mwyn ystyried a chymryd camau mewn perthynas â threfniadau storio sylweddau peryglus i iechyd, anghenion o ran arwyddion tân, peryglon baglu, arwyddion mynediad staff yn unig, a mynediad at gyfarpar deintyddol. | Safon Iechyd a Gofal 2.1<br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>14 (1) (d) | Gwnaed ychwanegiadau i'r asesiad risg. Anfonwyd y ddogfen at AGIC. | Caroline Dirks | Cwblhawyd |
| Mae angen sinc golchi â llaw a threfniad sinc ddwbl yn yr ystafell ddadheintio. | Safon Iechyd a Gofal 2.4<br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 | Mae trefniadau dros dro ar gyfer golchi â llaw ar waith, ac mae sinc sengl a phowlen hefyd yn cael eu defnyddio. Y bwriad yw gofyn i adeiladwr fwrw trwy'r ystafell ddadheintio i mewn i'r ystafell ymolchi gyfagos a’i hymestyn er mwyn gwneud lle am sinc ddwbl a chyfleuster | Dr Ann Rockey | 31 Rhagfyr 2018 |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | 14 (1) (b) | golchi â llaw. Mae hyn wedi bod yn gynllun hirdymor. | | |
| Roedd angen ystyried statws brechiadau imiwneiddio un deintydd mewn perthynas â rhoi dos atgyfnerthu iddo. | Safon Iechyd a Gofal 2.4<br><br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br><br>14 (1) (b) | Apwyntiad wedi'i drefnu gyda swyddog iechyd galwedigaethol ar 11 Awst 2017.<br><br>Rydym yn deall bod AGIC wedi cael ei hysbysu am brinder brechiadau cenedlaethol. O'r herwydd, rydym yn ymwybodol ac wedi cael ein cynghori felly pan fo dosau atgyfnerthu imiwnedd yn yr arfaeth y dylid trefnu asesiad risg i gynnal arfer gorau yn y cyfamser. Bydd y cyngor hwn yn cael ei ddilyn. | Caroline Dirks | 11 Awst 2017<br><br>Mae asesiad risg ar waith pe bai angen. |
| Mae disgwyl i staff perthnasol gwblhau hyfforddiant dadheintio. | Safon Iechyd a Gofal 2.4<br><br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br><br>14 (1) (b) | Mae hyfforddiant dadheintio mewnol ar gyfer y tîm cyfan wedi'i drefnu ar gyfer 14 Awst 2017. | Caroline Dirks | 14 Awst 2017 |
| Mae angen addurno'r ystafell driniaeth i lawr y grisiau a chynnal gwaith adfer ar y cabinetau ac | Safon Iechyd a | Mae'r amserlen lanhau eisoes wedi cael | Caroline Dirks | Wedi'i |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| adolygiad o'r amserlen lanhau. | Gofal 2.4<br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>14 (1) (d) | ei hadolygu.<br><br>Mae adeiladwr y practis ac addurnwr y practis yn mynd i edrych ar y cabinetau a thrafod y gwaith ailaddurno â Dr Ann Rockey. | Dr Ann Rockey | gyflawni<br><br>Ailaddurno ar 31 Awst 2018<br>Cabinetau ar 31 Gorffennaf 2018 |
| Nid oedd tystiolaeth o hyfforddiant amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed ar gyfer pum aelod o staff. Rhaid i gofnodion hyfforddiant gael eu cynnal yn rheolaidd fel eu bod yn gyfredol ac yn manylu'n gywir cydymffurfiad staff unigol a thimau â gofynion hyfforddiant. | Safon Iechyd a Gofal 2.7<br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>14 (1) (b) | Mae un aelod o staff wedi ymgymryd â hyfforddiant amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed ar 26 Gorffennaf 2017. Hyfforddiant amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed ar gyfer un nyrs ddeintyddol newydd hyfforddedig ac un nyrs ddeintyddol dan hyfforddiant – caiff eu statws hyfforddi ei adolygu a chaiff hyfforddiant ei drefnu, neu caiff tystiolaeth o hyfforddiant a gyflawnwyd ei gofnodi yn ffeiliau'r staff.<br>Bydd dau aelod o staff y dderbynfa'n ymgymryd â hyfforddiant amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed erbyn 31 | Dr Ann Rockey<br>Caroline Dirks | 31 Hydref 2017 |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | Hydref 2017. | | |
| Mae’n rhaid i ddeintyddion sicrhau eu bod yn mynd i'r afael â'r canfyddiadau penodol yn yr adroddiad sy'n ymwneud â chadw cofnodion ac mae'n rhaid iddynt wneud trefniadau priodol i sicrhau bod cofnodion deintyddol cleifion a gwblheir ganddyn nhw yn cael eu cynnal yn unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion. Dylid ymgymryd ag archwiliad cadw cofnodion. | Safon Iechyd a Gofal 3.3<br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>14 (1) (b) | Mae archwiliad cadw cofnodion wrthi'n cael ei baratoi. | Dr Ann Rockey<br>Caroline Dirks | 15 Tachwedd 2017 |
| **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth** | | | | |
| Mae angen gwiriadau diogelu cyfredol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer dau ddeintydd, yn unol â'r rheoliadau deintyddiaeth breifat. Rhaid darparu tystiolaeth o hyn ar gyfer AGIC. | Safon Iechyd a Gofal 3.3<br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>14 (1) (b) | Roedd gan un deintydd wiriad cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd nad oedd ar gael i'w arolygu; mae copi o'r dystysgrif hon wedi cael ei anfon at AGIC. Mae'r ffurflen gais arall ar gyfer y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd eisoes wedi cael ei chwblhau a'i chyflwyno, a chaiff tystiolaeth ei hanfon ymlaen at AGIC. | Caroline Dirks | 30 Medi 2017 |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb a'r atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth**

| | |
|---|---|
| **Enw (llythrennau bras):** | **Ann Rockey** |
| **Swydd:** | **Perchennog y practis a phrif ddeintydd** |
| **Dyddiad:** | **26 Gorffennaf 2017** |